# Y PWYLLGOR DEDDFAU

## COFNODION (LEG(2)-14-2006)

### Dyddiad y cyfarfod: 9 Mai 2006

### Amser y cyfarfod: 9.30am

### Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Y Senedd

### Aelodau’r Cynulliad yn Bresennol:

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| Jeff Cuthbert | Caerffili |
| Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| David Melding (Cadeirydd) | Canol De Cymru |

### Swyddogion

| **Enw** | **Teitl y Swydd** |
|---|---|
| Gwyn Griffiths | Cynghorydd Cyfreithiol |
| Joanest Jackson | Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

| Enw | Teitl y Swydd |
|---|---|
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Hasera Khan | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

## Eitem 1: Ymddiheuriadau am absenoldeb: Brynle Williams, Janice Gregory, Janet Ryder

## Eitem 2: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol - LEG(2)-13-2006

2.1 Cytunodd y Pwyllgor y dylai cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mai 2006 gael eu cylchredeg o’r newydd yr wythnos nesaf i ganiatáu i’r ddau ddiwygiad gan y Cadeirydd gael eu hymgorffori.

## Eitem 3: Adroddiad y Cadeirydd

3.1. Estynnodd y Cadeirydd groeso i’r Dirprwy Glerc newydd.

3.2 Nodwyd bod aelod o’r Pwyllgor Deddfau, Brynle Williams AC, yn sâl a chytunwyd y dylai’r Cadeirydd ysgrifennu ato ar ran y Pwyllgor i ddymuno gwellhad buan iddo. Camau i’w cymryd: Y Cadeirydd/y Clerc

## Eitem 4: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried

4.1 LC1234 - The Foot-and-Mouth Disease (Wales) Order 2006

LC1235 - Rheoliadau Clwy’r Traed a’r Genau (Rheoli Brechu) (Cymru) 2006

Mr Griffiths gyflwynodd yr adroddiadau i’r Pwyllgor. Atgoffodd yr Aelodau fod LC1234 ac LC1235 wedi’u hystyried yn wreiddiol yn y cyfarfod ar 14 Mawrth 2006. Roedden nhw wedi dilyn y Weithdrefn weithredol ac felly allai’r cywiriadau o dan y Memorandwm Cywiriadau ddim cael eu gwneud. Roedd y Pwyllgor wedi cytuno ysgrifennu at y Gweinidog i ofyn am ei sylwadau o dan Reol Sefydlog 11.6 cyn pennu manylion terfynol y ddau adroddiad drafft. Roedd y Gweinidog wedi ateb ac roedd yr adroddiadau wedi’u hail-ddrafftio yng ngoleuni ei atebion.

4.2 LC1234 - The Foot-and-Mouth Disease (Wales) Order 2006

Tynnodd Mr Griffiths sylw’r Aelodau at esboniad y Gweinidog mewn perthynas â’r trydydd pwynt adrodd o dan 11.7, a oedd yn cynnwys y ffaith bod rhai o’r problemau wedi’u hachosi drwy ddefnyddio gwasanaeth cyfieithwyr allanol, gan nad oedd gan gyfieithwyr mewnol y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau

Cyfreithiol ddigon o amser i wneud y gwaith angenrheidiol oherwydd y prinder adnoddau.

4.3 Awgrymodd Mr Griffiths efallai y byddai’r Aelodau am ystyried a ddylai’r Gorchymyn gael ei ail-wneud yn ddwyieithog, oherwydd o ateb y Gweinidog roedd yn amlwg bod yna destun Cymraeg a oedd bron yn barod. Cytunodd yr Aelodau ofyn i’r Cadeirydd ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, Carwyn Jones AC, i’r perwyl hwnnw. Camau i’w cymryd: Y Cadeirydd/y Clerc

4.4 LC1235 - Rheoliadau Clwy’r Traed a’r Genau (Rheoli Brechu) (Cymru) 2006

Nododd Mr Griffiths fod y frawddeg "Mae'r Gweinidog wedi cadarnhau y bydd hyn yn cael ei wneud pan fydd cyfle priodol yn codi" yn y lle anghywir yn ei adroddiad ac y dylai gael ei gosod o flaen "Sylwadau". Cytunodd yr Aelodau â hyn. Camau i’w cymryd: Y Clerc

4.5 Nodwyd hefyd ei bod yn holl-bwysig cywiro’r pwynt ar yr anghysondeb rhwng y testun Cymraeg a’r testun Saesneg a danlinellwyd yn nhrydydd paragraff yr adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7 ("Yn y diffiniad o "minced meat" yn rheoliad 2, mae’r testun Saesneg yn darparu fod yn rhaid iddo gynnwys "les than 1% salt". Mae’r testun Cymraeg yn cyfeirio at "llai nag 1% o fraster" [fat]. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]"). Cytunwyd y dylai’r Cadeirydd ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, Carwyn Jones AC, i dynnu ei sylw at y mater. Camau i’w cymryd: Y Cadeirydd/y Clerc

4.6 O ran LC1234 ac LC1235, cytunodd yr Aelodau y dylai’r adroddiadau gael eu gwneud ar ffurf y drafftiau a gyflwynwyd i’r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

4.7 LC1275 – Rheoliadau Labelu Pysgod (Cymru) (Diwygio) 2006

Mr Griffiths gyflwynodd yr adroddiad i’r Pwyllgor. Cytunodd yr Aelodau y dylai’r adroddiad gael ei wneud ar ffurf y drafft a gyflwynwyd i’r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

4.8 O ran yr Offerynnau Statudol canlynol, cytunodd yr Aelodau y dylai’r adroddiadau gael eu gwneud ar ffurf y drafftiau a gyflwynwyd i’r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol:

LC1274 – The National Health Service (General Dental Services Contracts and Personal Dental Services Agreements) (Amendment) (Wales) Regulations 2006

LC1281 – Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 10 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2006

LC1282 – Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) (Diwygio) 2006

LC1283 - Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) (Diwygio) 2006

## Camau i'w cymryd

3.2 Cytunwyd y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at Brynle Williams AC ar ran y Pwyllgor i ddymuno gwellhad buan iddo. Camau i'w cymryd: Y Cadeirydd/y Clerc

4.3 Gofynnodd yr Aelodau i'r Cadeirydd ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, Carwyn Jones AC, i ofyn iddo ystyried a ddylai LC1234 - The Foot-and-Mouth Disease (Wales) Order 2006 gael ei ail-wneud yn ddwyieithog. Camau i'w cymryd: Y Cadeirydd/y Clerc

4.4 LC1235 - Rheoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Rheoli Brechu) (Cymru) 2006. Gofynnwyd i'r Clerc roi'r frawddeg "Mae'r Gweinidog wedi cadarnhau y bydd hyn yn cael ei wneud pan fydd cyfle priodol yn codi" o flaen "Sylwadau" yn yr adroddiad. Camau i'w cymryd: Y Clerc

4.5 Cytunwyd y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad i dynnu ei sylw at yr anghysondeb rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg a danlinellwyd yn nhrydydd paragraff yr adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7 ("Yn y diffiniad o "minced meat" yn rheoliad 2, mae'r testun Saesneg yn darparu fod yn rhaid iddo gynnwys "les than 1% salt."). Camau i'w cymryd: Y Cadeirydd/y Clerc

## Eitem 5: Craffu ar Ddeddfwriaeth ar ôl Etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol yn 2007

5.1 Diolchodd y Cadeirydd i Nicholas Bourne AC am ei ateb i'r llythyr yn gofyn i Aelodau'r Cynulliad fynegi eu barn am rôl bosibl y Pwyllgor Deddfau ar ôl 2007. Dywedodd y byddai'r Aelodau'n ystyried ei farn wrth drafod y dystiolaeth a gawsai'r Pwyllgor yn ystod yr Ymchwiliad.

5.2 Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor bellach wedi casglu digon o dystiolaeth i gynhyrchu papur cwmpasu, a fyddai, ynghyd â'r drafodaeth wedyn, yn sylfaen ar gyfer adroddiad pendant, byr, a fyddai'n crynhoi'r dystiolaeth a ddaethai i law'r Pwyllgor ac argymhellion yr Aelodau, tra dylai gwefan y Pwyllgor gynnwys dolenni i gysylltu â'r holl dystiolaeth fanwl a ddaethai i law.

5.3 Cynigiwyd y dylai'r papur cwmpasu gael ei seilio ar y papur cychwynnol yr oedd y Cynghorydd Cyfreithiol wedi'i ysgrifennu, a oedd yn amlinellu fframwaith yr Ymchwiliad.

5.4 Cynigiwyd hefyd y dylai adroddiad y Pwyllgor fod yn weddol hyblyg – dylai fod yn ddogfen a allai gael ei hadolygu ar ôl blwyddyn ar waith, oherwydd ar hyn o bryd roedd yn dal yn aneglur faint o ddeddfwriaeth a geid ar ôl 2007.

5.5 Cynigiwyd y dylai'r papur cwmpasu ganolbwyntio ar y pwyntiau canlynol:

y byddai angen cael Pwyllgor Deddfau: daethai'n amlwg (yn enwedig felly ar sail yr wybodaeth a roddwyd gan Aelodau o Bwyllgor Is-ddeddfwriaeth yr Alban) y byddai llawer o waith yn cael ei greu ar ôl 2007 a hynny ym maes is-ddeddfwriaeth a chan y Mesurau Cynulliad newydd (a fyddai'n cyfateb i'r Deddfau Sylfaenol yn yr Alban);

pan fyddai angen, y gallai'r Pwyllgor Deddfau gyflwyno sylwadau ar y dewis rhwng y weithdrefn negyddol a'r weithdrefn gadarnhaol

pe na bai digon o graffu ar offeryn statudol, y gallai'r Pwyllgor Deddfau argymell bod angen craffu arno ymhellach, er y dylai'r craffu hwnnw gael ei wneud gan bwyllgor pwnc perthnasol (roedd gwaith Pwyllgor "Rhagoriaethau Offerynnau Statudol" Ty'r Arglwyddi yn enghraifft arbennig o dda o'r swyddogaeth yma);

bod maes gwaith arall i'r Pwyllgor Deddfau yn y dyfodol wedi dod i'r amlwg o dystiolaeth Mr Lambert, a ddywedodd y gallai fod cynnydd yn y gwaith yn sgil y Mesur Deddfwriaeth a Diwygio Rheoleiddio;

y dylai'r Pwyllgor Deddfau yn y dyfodol wneud y gwaith craffu technegol ar Fesurau ac ar unrhyw welliannau iddyn nhw (fel y tanlinellwyd gan dystiolaeth yr Aelodau o Bwyllgor Is-ddeddfwriaeth yr Alban);

yn olaf ond heb fod yn lleiaf, y dylai'r Pwyllgor Deddfau yn y dyfodol chwarae rhan effeithiol wrth sicrhau bod deddfwriaeth y Cynulliad yn cael ei chyhoeddi'n ddwyieithog ac mewn iaith glir a hawdd ei deall – a hynny yn y Gymraeg a'r Saesneg.

5.6 Nodwyd hefyd y byddai'r pwyllgorau pwnc yn wynebu cynnydd aruthrol yn eu gwaith ar ôl 2007, gan graffu ar y ddeddfwriaeth o safbwynt polisi.

## Eitem 6: Unrhyw Fusnes Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

6.1 Rheoliadau Addysg (Gorchmynion Rhianta) (Cymru) 2006 (LC1268)

Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (Cychwyn Rhif 5) (Cymru) 2006 (LC1269)

Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 8 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2006 (LC1270)

Cytunodd y Pwyllgor yn ffurfiol na fyddai adroddiadau’r Pwyllgor Deddfau yn newid o ganlyniad i newid y dyddiad y deuai’r Offerynnau Statudol uchod i rym i 11 Mai 2006.

6.2 Byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal ar 16 Mai 2006.